Estyn
Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ysgol Uwchradd Gatholig ac Anglicanaidd Sant Joseff
Ffordd Sonlli
Wrecsam
LL13 7EN

07/02/2025

Annwyl Chris

**Ymweliad interim:** Ionawr 2025

Annwyl Chris,

Diolch i chi am eich cefnogaeth yn ystod yr ymweliad interim â'r ysgol ar 15 ac 16 Ionawr 2025. Fe wnaethom fwynhau'r cyfle i gyfarfod â chi, eich staff a'ch disgyblion i glywed mwy am y gwaith gwella mae'r ysgol wedi'i gyflawni ers yr arolygiad craidd ym mis Chwefror 2020.

Yn ystod yr ymweliad, cawsom gyfle i:

- drafod ag arweinwyr y cynnydd y mae'r ysgol wedi'i wneud o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad yn ymwneud â sicrhau bod yr addysgu'n bodloni anghenion pob disgybl a gwella ansawdd ac effaith adborth ysgrifenedig;
- trafod ag arweinwyr y cynnydd y mae'r ysgol wedi'i wneud o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad yn ymwneud â gwella darpariaeth i ddatblygu medrau disgyblon ar draws y cwricwlwm;
- siarad â disgyblion o Flwyddyn 8 a 9 a chlywed eu hadborth am yr ysgol;
- siarad ag arweinwyr canol ac athrawon am eu rolau o ran ysgogi gwelliannau yn y 2 argymhelliad;
- cynnal cyfres o arsylwadau ar y cyd ag uwch arweinwyr i gefnogi eich hunanwerthuso a chynllunio gwelliant;
- craffu ar waith ar y cyd â detholiad o arweinwyr canol perthnasol; ac
- arsylwi ystod o wersi, craffu ar sampl o waith disgyblion ac unrhyw ddogfennau perthnasol a ddarparwyd gan yr ysgol.

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd,
CF24 5JW Ffôn: 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru
www.estyn.llyw.cymru

Estyn, Anchor Court, Keen Road,
Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920
446446 enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

**Ffocws yr ymweliad**

## Pa mor dda y mae athrawon yn cynllunio i fodloni anghenion pob disgybl a pha effaith y mae adborth ysgrifenedig yn ei chael ar gynnydd disgyblion?

### Cynllunio i fodloni anghenion pob disgybl

Ers adeg yr arolygiad diwethaf, mae arweinwyr yn Ysgol Sant Joseff wedi gwneud ymdrechion targedig i gynorthwyo athrawon i ymestyn disgyblion mwy abl a chefnogi'r rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae dysgu proffesiynol wedi canolbwyntio'n benodol ar fireinio technegau holi athrawon i herio cyflawnwyr uchel yn ogystal â chefnogi'r rhai sydd ag ADY. Mae gan yr ysgol strategaeth dra ystyriol i gefnogi disgyblion sy'n siarad Saesneg fel Iaith Ychwanegol (SIY). Yn y gwersi a arsylwyd yn ystod yr ymweliad hwn, gwelsom rai enghreifftiau o sut roedd athrawon yn addasu eu haddysgu i fodloni anghenion disgyblion.

### Gwella effaith adborth ysgrifenedig

Mae arweinwyr wedi datblygu ymagwedd strwythuredig tuag at wella ansawdd ac effaith adborth ysgrifenedig. Caiff adrannau eu hannog i ystyried sut byddant yn rhoi adborth wrth gynllunio unedau gwaith a chynnig amcanion dysgu clir i ddisgyblion y gellir mesur eu cynnydd yn eu herbyn. Mae arweinwyr yn awyddus i symud oddi wrth raddau i systemau sy'n defnyddio datganiadau ffurfiannol i roi adborth mwy adeiladol a datblygiadol i ddisgyblion.

Crybwyllodd yr ysgol ei bod wedi gweld llwyddiant mewn pynciau penodol, yn arbennig Saesneg a mathemateg, lle dywed disgyblion eu bod yn gwerthfawrogi ansawdd yr adborth a gânt. Fodd bynnag, maent yn cydnabod bod effaith adborth yn amrywio gormod ar draws pynciau. Er bod llawer o athrawon yn nodi gwallau a chamsyniadau yn effeithiol, mae defnyddioldeb eu sylwadau a'r graddau y mae disgyblion yn gweithredu arnynt yn amrywio o hyd.

Credwn y byddai'n ddefnyddiol i'r ysgol ystyried:

- Sut bydd arweinwyr yn lleihau'r amrywiad yn y ffordd mae athrawon yn addasu eu haddysgu i fodloni anghenion pob disgybl?
- Sut bydd arweinwyr yn rhannu'r arfer dda a adnabuwyd?
- Sut bydd arweinwyr canol yn defnyddio gweithgareddau craffu ar waith i werthuso effaith adborth ysgrifenedig a chynllunio ar gyfer gwella?

## Pa mor effeithiol yw darpariaeth yr ysgol i ddatblygu medrau darllen a rhifedd disgyblion yn gynyddol?

Yn ystod ein hymweliad, cawsom gyfle i glywed arweinwyr, gan gynnwys y cydlynwyr medrau, yn siarad am eu gweledigaeth ar gyfer sut i ddatblygu medrau darllen a rhifedd disgyblion ar draws pynciau gwahanol. Mae cydlynwyr yn cefnogi adrannau i gynnig

cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu ystod eang o fedrau darllen. Yn yr enghreifftiau gorau, mae pwyslais cryf ar ddatblygu geirfa disgyblion i'w cynorthwyo i fanteisio ar destunau darllen heriol a chyfoethogi eu hysgrifennu. Mae'r ysgol wedi canolbwyntio'n dda ar ddatblygu diwylliant darllen. Er enghraifft, mae 'Llysgenhadon Llyfrgell' staff a disgyblion yn cydweithio'n dda â'i gilydd i hybu manteision darllen er pleser a chaiff rhieni arweiniad defnyddiol ar sut gallent gefnogi eu plant â'u darllen.

Dywedodd arweinwyr wrthym sut maent wedi cydweithio'n agos ag arweinwyr pynciau perthnasol i gael dealltwriaeth well o safonau rhifedd ar draws y cwricwlwm. Yn ddiweddar, maent wedi creu cynllun gweithredu synhwyrol ar rifedd. Maent wedi darparu dysgu proffesiynol defnyddiol a chymorth strwythuredig i staff sy'n cyd-fynd yn uniongyrchol â'r meysydd y maent wedi'u nodi'n rhai y mae angen eu gwella ymhellach. Er bod arweinwyr yn cydnabod bod mwy o waith i'w wneud mewn meysydd penodol, roedd yn ddefnyddiol gweld rhai enghreifftiau lle mae hyn yn cael rhywfaint o effaith.

Credwn y byddai'n ddefnyddiol i'r ysgol ystyried:

- Sut bydd arweinwyr yn sicrhau bod pynciau ar draws y cwricwlwm yn hybu'r medrau darllen uwch mwyaf priodol i gefnogi dysgu?
- Sut gall yr ysgol sicrhau datblygiad cynyddol mewn medrau rhifedd disgyblion ar draws pynciau perthnasol?

**Hunanwerthuso a chynllunio gwelliant**

Yn ystod ein hymweliad, clywsom sut mae arweinwyr yn defnyddio tystiolaeth uniongyrchol a gwybodaeth berthnasol o ffynonellau data i lywio eu gwerthusiadau. Yn yr achosion gorau, mae adroddiadau craffu ar waith ac arsylwi gwersi yn cysylltu dysgu a chynnydd disgyblion yn addas ag agweddau ar addysgu a darpariaeth. Mae'r gwerthusiadau hyn yn cynnwys camau dilynol clir y gellir eu rhoi ar waith, sy'n ychwanegu gwerth strategol at y broses wella. Fodd bynnag, roedd rhywfaint o amrywiad yn y graddau y mae gan arweinwyr ddealltwriaeth fanwl gywir o gryfderau a meysydd i'w gwella oherwydd diffyg trylwyredd yn eu gwerthusiadau.

Credwn y byddai'n ddefnyddiol i'r ysgol ystyried:

- Sut bydd arweinwyr yn sicrhau bod gwerthusiadau adrannol yn ffocysu'n agosach ar ansawdd yr addysgu a'i effaith ar ddysgu a chynnydd?

Diolch unwaith eto am eich holl help i gynllunio a threfnu ein hymweliad. Dymunwn yn dda i chi at y dyfodol.

Gellir dod o hyd i arolygiad craidd diweddaraf yr ysgol a rhagor o wybodaeth am broses a diben ymweliadau interim ar ein gwefan:
http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6654603

Yn gywir

**Catherine Evans**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol